

**LISTEN  
ENGAGE  
REPRESENT**



**WELSH ATHLETICS**  
ATHLETAU CYMRU

## **CYFARWYDDWR ANWEITHREDOL (CYFATHREBU A MARCHNATA)**

Mae Athletau Cymru yn chwilio am unigolion brwdfrydig a blaengar i ymuno â'i Fwrdd. Rydym yn chwilio am unigolion profiadol sydd â sgiliau meddwl beirniadol cryf a'r gallu i ffurfio barn annibynnol er mwyn cyd-weithio'n effeithiol gyda chyfarwyddwyr anweithredol eraill.

Gweledigaeth Athletau Cymru yw creu rhaglen datblygu athletau o'r radd flaenaf a datblygu athletau yn un o'r chwaraeon mwyaf yng Nghymru drwy sicrhau cyfranogiad a chyfle.

Rydym yn ymroddedig i arwain y sector a bod yn Gorff Llywodraethu Cenedlaethol i chwaraeon yng Nghymru ac rydym yn gweithredu ar ein gwerthoedd o ymddiriedaeth, parch, uchelgais, uchelgais a rhagoriaeth, hwyl ac ynghyd.

Mae hon yn rôl wirfoddol ac ad-delir yr holl dreuliau teithio a chynhaliaeth rhesymol yn llawn.

**Ymrwymiad o ran amser** 1-2 ddiwrnod y mis tua phum cyfarfod Bwrdd y flwyddyn fel arfer. Byddai'r rôl hefyd yn cynnwys bod yn rhan o'r is-grŵp Datblygu a Chyfranogiad, ac fel arfer ceir pum cyfarfod is-grŵp y flwyddyn.

**Cyfnod y rôl** Penodir Cyfarwyddwyr Anweithredol am gyfnod o dair blynedd. (Caniateir uchafswm o 2 dymor)

**Lleoliad** Lleolir prif swyddfa Athletau Cymru ar Gampws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd a chynhelir y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yng Nghaerdydd.

Mae Athletau Cymru yn gorff llywodraethu Chwaraeon blaenllaw gyda gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer moderneiddio a datblygu ein camp. Credwn y gallwn ysbrydoli cenedlaeth o sêr y dyfodol a chymell poblogaeth i redeg eu ffordd i fywyd iachach.

**Os hoffech fod ar flaen y gad yn gwireddu hyn i Gymru, dyma'r rôl i chi.**



## Crynodeb o'r Rôl

Swyddogaeth y Bwrdd a'i aelodau yw goruchwyllo'r ffordd y rheolir busnes Athletau Cymru a chyflawni cyfrifoldebau ei gyfarwyddwyr o dan y Ddeddf Cwmnïau.

- Bod yn gyfarwyddwr cwmni Athletau Cymru Cyfyngedig a rhoi arweiniad ac arbenigedd ym meysydd Cyfathrebu a Marchnata.
- Sicrhau bod rheolaethau a systemau ar waith i ddiogelu swyddogaeth llywodraethu corfforaethol Athletau Cymru ac adrodd i aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- Paratoi papurau polisi a mynd i'r afael â phrosiectau datblygu penodol yn ôl cyfarwyddyd y Bwrdd.
- Gweithio gydag adrannau perthnasol i helpu i greu a chyflwyno strategaeth gyfathrebu a marchnata ar gyfer athletau yng Nghymru.
- Gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Datblygu a Chyfranogiad i sicrhau bod yr holl amcanion strategol yn cael eu cyflawni, a bod prosiectau allweddol yn cael eu cyflawni ar amser ac yn unol â'r gyllideb
- Cyngori'r Bwrdd ar feysydd sy'n ymwneud â Chyfathrebu a Marchnata.
- Helpu i greu strategaeth farchnata fel bod modd i Athletau Cymru ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'r galw nas bodlonir am chwaraeon.
- Cefnogi adrannau perthnasol i helpu i sicrhau bod rhaglen rhedeg cymdeithasol Rhedeg Cymru yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cyd-fynd â'r twf yn y sector rhedeg.
- Helpu i greu dogfennau eiriolaeth allweddol sy'n tynnu sylw at fanteision ehangach athletau a rhedeg.
- Gweithio gyda Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol i gynnal adolygiad blynyddol o asedau marchnata, canllawiau a deunyddiau'r brand, gan wneud argymhellion ar gyfer gofynion y dyfodol.
- Cefnogi'r gwaith o greu strategaeth ddigidol i Athletau Cymru
- Hyrwyddo'r safonau llywodraethu uchaf a cheisio sicrhau cydymffurfiad lle bynnag y bo modd.

## Manyleb Person

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn frwd am Athletau, bod â gwybodaeth dda o'r dirwedd chwaraeon yng Nghymru, a bod yn ymwybodol o'r dirwedd wleidyddol newidiol. Rhaid bod yn ymwybodol o rôl Chwaraeon yn yr agenda gwleidyddol ehangach Cymru.



## Cyfarwyddwr Anweithredol - Cyfathrebu a Marchnata

Bydd ganddynt brofiad sylweddol o weithio ym maes Cyfathrebu a/neu Farchnata, yn ddefnyddiol yn y sector Chwaraeon Masnachol

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn barod i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd, a gynhelir ar nifer benodedig o achlysuron y flwyddyn ar ddyddiadau a gytunir arnynt ymlaen llaw. Bydd hefyd ar gael ar gyfer cyfleoedd hyfforddi a datblygu fel y cytunir gan y Bwrdd ei hun.

### Cymwyseddau

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad sylweddol o waith Cyfathrebu a / neu Farchnata, yn ddefnyddiol yn y sector Chwaraeon neu'r sector 'nid er elw'.

1. Ymrwymiad i Athletau Cymru, ei werthoedd, ei nodau a'i foeseg

*Ysbrydoli gyda hyder ac ymrwymiad. Sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn deall yr amcanion strategol ac yn ymwybodol o ddyletswyddau'r Bwrdd i'r rhai sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion hyn.*

*Cynnal safonau moesegol uchel o ran gonestrwydd ac eglurder. Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddyletswydd gofal i bawb sy'n gysylltiedig yn cael ei diogelu bob amser.*

2. Dealltwriaeth o'r amgylchedd

Dealltwriaeth gref o'r dirwedd chwaraeon a chyllid i chwaraeon sy'n prysur ddatblygu yng Nghymru.

*Meddu ar sgiliau rhyngpersonol a sgiliau trafod cryf, gyda'r gallu i ddatblygu perthnasoedd gyda rhanddeiliaid a phartneriaethau masnachol effeithiol a chynaliadwy.*

3. Deall rheolaeth gorfforaethol dda

Profiad o ddefnyddio egwyddorion llywodraethu cadarn i wneud penderfyniadau, ac mewn systemau a strwythurau.

4. Sgiliau cyfathrebu hynod ddatblygedig

*Sgiliau cyfathrebu rhagorol. Gallu addasu steil y cyfathrebu, ac addasu cynnwys a negeseuon, ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd.*

5. Ymddygiad yn seiliedig ar werthoedd

*Dangos gonestrwydd, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd ac arweinyddiaeth.*



WELSH ATHLETICS  
ATHLETAU CYMRU

## Cyfarwyddwr Anweithredol - Cyfathrebu a Marchnata

### 6. Sgiliau dadansoddi cryf

*Gallu dadansoddi ac asesu gwybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol.*

### Gwybodaeth ychwanegol

I wneud cais am y rôl hon, cyflwynwch eich CV ar ein porth recriwtio ar y we, yn ogystal â llythyr ategol yn egluro eich diddordeb yn y rôl hon a'ch addasrwydd ar ei chyfer:

<https://welshathletics.peoplehr.net/JobBoard>

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 16<sup>ain</sup> Mai 2022**

Cyfweliadau i'w cynnal yng Nghaerdydd: I'w gadarnhau

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â: **James Williams**, Prif Weithredwr  
[James.williams@welshathletics.org](mailto:James.williams@welshathletics.org)

Rhagor o wybodaeth

**Steve Perks**, Cadeirydd y Bwrdd [steve.perks@welshathletics.org](mailto:steve.perks@welshathletics.org)

Rydym yn penodi gyda system agored a gonest sy'n seiliedig ar yr arferion gorau presennol ac os oes arnoch chi angen unrhyw gymorth i gwblhau eich cais neu os oes arnoch chi angen fformat gwahanol, cysylltwch â'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, Robert Sage:

[hr@welshathletics.org](mailto:hr@welshathletics.org) neu ffoniwch 07864 613635

Rydym yn ymrwmo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, i'r graddau y gallwn wneud hynny'n rhesymol, a chroesawir ceisiadau yn y naill iaith neu'r llall.

Mae Athletau Cymru yn ymrwmo i gyfle cyfartal ac i ffurfio bwrdd cytbwys, cynhwysol a medrus. Anogwn yn gadarnhaol geisiadau gan ymgeiswyr cymwys sydd â'r cymwysterau priodol waeth beth fo'u hil, anabled, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gredoau. Pan fo modd, byddwn bob amser yn barod i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau hygyrchedd i unrhyw un sydd ei angen.

Ni fyddwn byth yn rhoi eich manylion i drydydd parti. Er mwyn dysgu mwy am ein dull o barchu eich preifatrwydd, ewch i'n tudalen ar Breifatrwydd, Cwcis a Hawlfraint.

<http://www.welshathletics.org/privacy,-cookies,-copyright.aspx>

I gael mwy o wybodaeth amdanom ni lawrlwythwch ein hadroddiad blynyddol o'n gwefan.



**WELSH ATHLETICS**  
ATHLETAU CYMRU

Cyfarwyddwr Anweithredol - Cyfathrebu a Marchnata

<https://www.welshathletics.org/cy/page/about-us>